## Bwrdd Hedfan Sioe Awyr Cymru - Amodau a Thelerau

Mae'r Bwrdd Hedfan ar agor i’r rhai sy’n prynu tocyn. Mae'r tocyn yn rhoi hawl i'r deiliad gael mynediad i'r ardal drwy gydol yr oriau agor a hysbysebir. Mae'r bwrdd hedfan yn ardal laswelltog mewn safle ardderchog ger y senotaff.

Yr oriau agor yw:

| | | |
|---|---|---|
| Dydd Sadwrn | 11am - 6pm | 7.30pm - 9.45pm |
| Dydd Sul | 11am - 6pm | Dd/b |

Bydd yr ardal yn cynnwys:

- Bar lle gellir prynu diodydd (nid yw diodydd wedi'u cynnwys yn y pris)
- Cyfleuster arlwyo lle gellir prynu bwyd (nid yw bwyd wedi'i gynnwys yn y pris mynediad)
- Cyfleusterau toiled da
- Seddi
- Ardaloedd dan orchudd a chysgodol

1. Mynediad â thocyn yn unig. Nid oes angen tocyn ar blant 3 oed ac yn iau. Gellir prynu tocynnau ymlaen llaw neu ar y diwrnod (am bris uwch, os oes rhai ar gael o hyd - gwerthwyd pob un ymlaen llaw yn y gorffennol).

2. Ni chaiff pobl ddod i'r digwyddiad os bydd stiwardiaid yn tybio bod rhywun dan ddylanwad alcohol neu sylwedd anghyfreithlon.

3. Cynhelir y digwyddiad ar safle maes glas a gall y tir fod yn anwastad. Efallai y bydd heolydd a rampiau dros dro. Byddwch yn ofalus wrth gerdded ar y ffyrdd a'r rampiau hyn ac oddi arnynt neu wrth eu croesi mewn cadeiriau olwyn.

4. Mae'r tocyn yn rhoi hawl i chi fynd i mewn i'r safle eto yn ystod yr amserau agor cyhoeddedig. Os ydych yn dangos y band arddwrn priodol.

5. Ni chaniateir plant dan 16 oed oni bai eu bod yng nghwmni oedolyn.

6. Er lles diogelwch, peidiwch â dod ag eitemau gwydr, barbeciws, canhwyllau na ffaglau wedi'u cynnau nac alcohol i'r ardal.

7. Nid oes hawl i ddeiliaid tocynnau ddod â'u halcohol eu hunain i'r ardal.

8. Mae'r holl ddeiliaid tocynnau'n caniatáu i gael recordiad ffilm a sain ohonynt eu hunain fel aelodau o'r gynulleidfa.

9. Efallai y bydd gwiriad diogelwch yn cael ei gynnal.

10. Mae Cyngor Abertawe'n cadw'r hawl i wrthod mynediad i unrhyw berson ac i ofyn i unigolion adael y safle os ceir unrhyw ymddygiad difrifol, peryglus, gwrthgymdeithasol neu annerbyniol arall.

11. Mae'n rhaid i bob mynychwr feddu ar docyn y mae'n rhaid ei ddangos ar ffurf papur neu e-docyn er mwyn cael eich derbyn i ardal y Bwrdd Hedfan.

12. Mae Cyngor Abertawe’n cadw'r hawl i wneud unrhyw addasiadau i'r manylion a hysbysebir ar gyfer y perfformiad.
13. Ni fydd y tocyn yn cael ei gyfnewid na'i ad-dalu oni bai fod y digwyddiad cyfan yn cael ei ganslo. Rhoddir ad-daliad o fewn un mis calendr i ddyddiad y digwyddiad a drefnwyd yn y man prynu gwreiddiol.
14. Dewch â digon o ddillad sbâr cynnes a dwrglos oherwydd gall y tywydd newid yn gyflym ac efallai y bydd yn oer/wlyb. Gallwch ddod â chlustogau a rygiau os dymunwch.
15. Ni chaniateir cŵn, oni bai am gŵn tywys.